
Pennaeth Strategol

Bethan Emyr Jones

✉ BethanEmyrJones@gwynedd.gov.uk

☎ 01678 520278



Ysgol Bro Tegid

BALA

Gwynedd

LL23 7BN

Dydd Mercher Tachwedd 23ain 2016

Annwyl Rieni,

Twrnament Rygbi – Tachwedd 25ain

Bydd twranament rygbi tag ar gae 3G Y Bala i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn y bore a Blwyddyn 5 a 6 yn y prynhawn. Blwyddyn 3 a 4 – I ddod i'r ysgol yn eu dillad rygbi (e.e tracwisg cynnes) a trainers glân. Dewch a thywel a photel o ddŵr a dillad sbar ar gyfer y prynhawn. Blwyddyn 5 a 6 – Dewch i'r ysgol yn eich dillad rygbi (e.e tracwisg cynnes) a trainers glân. Dewch a thywel a photel o ddŵr.

Ffair Nadolig yr ysgol – Tachwedd 30ain

Am y tro cyntaf eleni byddwn yn cynnal ein ffair Nadolig ar **Nos Fercher (5.00y.h – 7.00y.h)** Cost mynediad fydd £2.00 i oedolion, £1.00 i blant uwchradd a phlant cynradd/meithrin am ddim. Bydd amryw o wahanol stondinau gan gynnwys stondin gacennau a tombola. A fyddwch cystal a anfon unrhyw eitem ar gyfer y tombola erbyn Dydd Llun Tachwedd 28ain os gwelwch yn dda. Ar gyfer y stondin gacennau, bydd plat papur yn cael ei ddanfon allan Dydd Llun a gofynnwn yn garedig am gacen ar gyfer y stondin. Cacennau i mewn ar fore y ffair. Bydd y plant yn cymryd rhan yn y ffair a byddant yn canu ar eich cyfer.

Noson Sioa hwyr yn Y Bala – Rhagfyr 1af

Unwaith eto eleni mae cystadleuaeth ar gyfer plant oed cynradd. Mwy o fanylion ar y daflen amgaedig. Bydd arddangosfa o waith y plant yn cael eu harddangos yng Nghanolfan Bro Tegid ar y noson a byddant yn cyflwyno'r gwobrau yno am 7 o'r gloch.

Disgo i aelodau'r Urdd – Rhagfyr 6ed

Bydd disgo i aelodau'r Urdd – (Blwyddyn 3 – 6) yn Neuadd yr ysgol. Bydd aelodau'r Urdd o ysgolion Beuno Sant a Ffridd y Llyn yn ymuno yn yr hwyl. Pawb i ddod yn eu dillad eu hunain. Cychwyn yn brydlon am 6.00y.h a gorffen am 7.30y.h. Bydd y disgo yng ngofal Dylan yr Urdd.

Cinio Nadolig yr ysgol – Rhagfyr 9fed

Plant bocs bwyd sydd am gymryd cinio Nadolig i gofio ddod a £2.30 i Mrs Shorey ar y Dydd Llun cynt os gwelwch yn dda.

Cyngerdd Nadolig – Rhagfyr 12fed am 6.30y.h

Gofynnwn yn garedig i bob disgybl ddod i Neuadd Ysgol Y Berwyn erbyn 6.00y.h os gwelwch yn dda. Bydd y disgyblion yn cael eu gwisg i ddod adref gyda hwy ar fore y cyngerdd a bydd angen i bawb ddod yn eu dillad ar gyfer y sioe os gwelwch yn dda. Cost mynediad fydd £3.00 i oedolion, £1.00 i blant uwchradd a phlant cynradd a meithrin am ddim. Bydd raffl ar werth yn ystod y noson.

Parti Nadolig y plant – Rhagfyr 15fed

Bydd y plant yn mwynhau parti yn y prynhawn. Rhieni disgyblion Bl 3 – 6 sy'n arfer cyfrannu at y bwyd (Bydd mwy o fanylion i ddilyn ynglyn â'r bwyd) Pawb i ddod yn eu dillad eu hunain drwy'r dydd.

Diwrnod 'Save the Children' – Rhagfyr 16

Dewch i'r ysgol yn eich siwmpwr/top Nadoligaidd a thalu £1.00 tuag at yr elusen yma.

Gyda diolch,

Mrs Sara Morris